Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 257 (Cymru) – 27 Tachwedd 2019

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyfathrebu yn ystod y dilysu a'r cyfrif

Mae cyfathrebu da, yn Saesneg a Chymraeg, yn ystod y dilysu a'r cyfrif yn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol, fel ymgeiswyr, asiantau a'r cyfryngau, graffu'n briodol ar yr holl brosesau a bydd yn helpu i fagu hyder wrth weinyddu'r dilysu a'r cyfrif. Gall darparu gwybodaeth am y broses hefyd helpu i leihau nifer yr ymholiadau a godir, a thrwy hynny leihau'r pwysau ar staff.

Byddai'n ddefnyddiol eich atgoffa o'n harweiniad yn y maes hwn a thynnu sylw at rai ystyriaethau allweddol y dylech eu hystyried wrth benderfynu sut y byddwch yn cyfathrebu â'r mynychwyr adeg y dilysu a'r cyfrif.

Mae'r canlynol yn crynhoi rhai o'r camau a fydd yn helpu i sicrhau y gall y rhai sy'n mynychu eich dilysu a'ch cyfrif fod yn glir ynghylch yr hyn sy'n digwydd:

- Cynhyrchu a dosbarthu pecyn gwybodaeth i unrhyw un sy'n mynychu'r cyfrif sy'n cynnwys, er enghraifft, wybodaeth am y cyfleusterau, y prosesau sydd i'w cynnal a'r hyn y gall y rhai sy'n bresennol ddisgwyl ei weld a'r gweithdrefnau ar gyfer datgan y canlyniad.

- Sicrhau bod cyfathrebiadau amserol a chydlynol trwy gydol y dilysu a'r cyfrif, er enghraifft trwy ddefnyddio system annerch gyhoeddus, i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu mewn ffordd sy'n caniatáu i'r rhai sy'n bresennol ddeall yn llawn yr hyn sy'n digwydd.

- Ystyriwch osod posteri a byrddau gwybodaeth ledled y lleoliad gwirio a chyfrif, sy'n dangos yr aelodau staff allweddol ac yn rhoi trosolwg o'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn helpu mynychwyr i nodi beth sy'n digwydd ac ymhle.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyfathrebu yn ystod y dilysu a'r cyfrif

Nodyn i'ch atgoffa o'n cyfathrebu â'r mynychwyr adeg y dilysu a'r cyfrif.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: casglu data ar ôl yr etholiad

Gwybodaeth am y broses ar gyfer darparu data i ni yn dilyn etholiad cyffredinol Seneddol y DU.

Cofrestrau Rhagfyr 2019: casglu data etholiadol i ddigwydd ym mis Ionawr

Gwybodaeth am gasglu data ar ôl cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r

- Darparu cynllun o'r lleoliad, gan nodi'r meysydd diddordeb allweddol.
- Penodi aelod o staff i ymateb i ymholiadau ac i weithredu fel cyswllt â'r mynychwyr.
- Darparu taflen yn rhestru'r holl rifau blychau pleidleisio ac enwau'r gorsafoedd pleidleisio y maen nhw'n ymwneud â nhw.
- Darparu enghraifft i ymgeiswyr ac asiantau o'r gwaith gwirio templed a chyfrif papur a ddefnyddir.
- Rhoi copïau caled o'r datganiad dilysu wedi'i gwblhau a datganiad y canlyniad i ymgeiswyr ac asiantau.
- Rhoi copïau caled o'r canlyniad i gynrychiolwyr y cyfryngau ar y cyfrif ar adeg gwneud y cyhoeddiad gan y bydd hyn yn eu helpu i sicrhau bod eu trosglwyddiad o ffigurau'n gywir.
- Ailadrodd ddatganiad y canlyniad yn ôl yr angen fel bod y rhai sy'n bresennol yn gallu clywed y manylion yn glir, yn enwedig lle mae sŵn gan y rhai sy'n mynychu.

Rheoli'r cyfryngau wrth y cyfrif

Yn ogystal â'r uchod, wrth baratoi ar gyfer y cyfryngau, dylech geisio darparu, lle bynnag y bo modd:

- Cadeiriau a desgiau/byrddau digonol
- Pwyntiau pŵer
- Wifi (os yw ar gael)
- Ffonau llinell dir (yn enwedig os oes problemau gyda derbyniad symudol)
- Mynediad at ymgeiswyr, asiantau plaid a swyddogion os oes angen gwybodaeth neu sylw arnynt

Canllawiau ac adnoddau

- Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am baratoi ar gyfer y cyfrif yn Rhan E - Gwirio a chyfrif y pleidleisiau.
- Gellir dod o hyd i ganllawiau ymarferol ar gyfathrebu gwybodaeth wrth y dilysu a'r cyfrif yn ein pecyn cymorth dilysu a chyfrif.
- Gellir defnyddio ein sgriptiau enghreifftiol templed ar gyfer ROs (Dros-Dro) fel sail i gyhoeddiadau ar wahanol gamau o'r cyfrif.
- Gellir defnyddio ein cynghorion ar gyfer rheoli'r cyfryngau yn y cyfrif i'ch cynorthwyo chi a'ch tîm cyfathrebu gyda chysylltiad â'r cyfryngau.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: casglu data ar ôl yr etholiad

Yn dilyn etholiad cyffredinol Seneddol y DU, byddwn unwaith eto yn casglu data gweinyddol, gan gynnwys ffigurau a bleidleisiodd, data ar bapurau pleidleisio a wrthodwyd a data pleidleisio post. Mae'r

tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwyd)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.

data pwysig hwn yn helpu i lywio ein hadroddiadau ar yr arolwg ynghyd â darparu tystiolaeth ategol ar gyfer ein gwaith ymchwil a pholisi ehangach.

Er mwyn gwneud y broses yn haws ac yn gyflymach i chi byddwn yn defnyddio porth ar-lein i gasglu set lai o ddata allweddol. Bydd yn dilysu'r data a gyflwynwch yn awtomatig felly bydd yn lleihau'r angen i ni gysylltu â chi gydag ymholiadau ar ôl dychwelyd.

Rydym wedi cynhyrchu canllaw defnyddiwr, sy'n esbonio sut i ddefnyddio'r porth. Mae'r canllaw hefyd yn nodi'r data y byddwn yn eu casglu a phryd, ac mae'n cynnwys rhestr o'r cyfeiriadau e-bost etholiad awdurdod lleol generig yr ydym yn bwriadu eu defnyddio i gysylltu â chi. Rhowch wybod i ni os ydych chi'n credu bod gennym gyfeiriad e-bost anghywir wedi'i restru ar gyfer eich tîm.

Beth sy'n digwydd nesaf?
Byddwn yn anfon e-byst yn eich gwahodd i gofrestru ar gyfer y porth data ar-lein ar 18 Rhagfyr. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data yw dydd Gwener 17 Ionawr 2020.

Beth am Ffurflen K?
Nid yw'r data yr ydym yn ei gasglu trwy'r porth ar-lein yn cynnwys y datganiad Ffurflen K llawn ynghylch pleidleisiau post. Byddwch yn dal i allu dychwelyd Ffurflenni K wedi'u cwblhau atom yn y ffordd arferol, trwy e-bostio research@electoralcommission.org.uk.

Canfas 2019: casglu data etholiadol i ddigwydd ym mis Ionawr

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar ôl cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig, byddwn yn casglu gwybodaeth a data yn ymwneud â'r canfasio blynyddol a chyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig. Fel rheol, cesglir y data ym mis Rhagfyr, yn syth ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig, ond o ganlyniad i'r UKPGE ni fyddwn yn dechrau casglu data eleni tan yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 6 Ionawr 2020.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch data fydd dydd Gwener 24 Ionawr 2020. Yn ôl yr arfer, gellir cynhyrchu'r data trwy eich system EMS a dylai eich cyflenwr roi cyfarwyddiadau i chi ar sut i gynhyrchu'r data. Byddwn yn darparu mwy o fanylion ar ble i gyflwyno'ch data mewn Bwletin ym mis Ionawr.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019